**PWYLLGOR SAFONAU**
**4 TACHWEDD 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Llun, 4 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL: Rob Dewey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Earlam, Julia Hughes a Ken Molyneux

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Dirprwy Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 36. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 37. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 38. GODDEFEBAU

Dim.

## 39. ADRODDIADAU O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL I GYNGHORAU TREF/ CYMUNED

Cyflwynodd Ken Molyneux ei adroddiad llafar yn dilyn ei ymweliad â chyfarfod Cyngor Tref Shotton.

Ar ôl profi anawsterau wrth gysylltu â'r Cyngor Tref i gael gwybodaeth am y cyfarfod, roedd wedi cael cyfeiriad e-bost ar gyfer y Clerc a oedd wedi ymateb, ond roedd lleoliad y cyfarfod yn wahanol i'r hyn a ddangoswyd ar y wefan. Dywedodd fod y cyfarfod wedi ei gadeirio yn dda, a’r rhai a oedd yn bresennol wedi cyfrannu’n dda. Cyrhaeddodd dau aeod ar ôl i’r cyfarfod ddechrau ac ni chawsant gyfle i ddatgan unrhyw gysylltiadau. Dywedodd Julia Hughes ei bod hithau wedi cael problemau tebyg wrth geisio cysylltu â’r Clerc pan geisiodd fynychu cyfarfod yn flaenorol.

Ar un o’r pwyntiau a godwyd, esboniodd y Swyddog Monitro fod dyddiadau cyfarfod Fforwm y Sir yn osgoi dyddiadau cyfarfodydd y Cynghorau Tref a Chymuned.

Codwyd y pwyntiau canlynol a fydd yn cael eu hadrodd yn ôl i Gynghorau Tref a Chymuned:

- Sicrhau bod gwefannau'n gyfredol, gan arddangos manylion cyswllt a gwybodaeth am gyfarfodydd i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a allai fod eisiau mynychu.
- Atgoffa Clercod y dylid rhoi cyfle i aelodau sy'n cyrraedd yn hwyr i gyfarfodydd ddatgan unrhyw gysylltiadau cyn cymryd rhan yn y cyfarfod.

Byddai trosolwg o'r holl ymweliadau yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf, gan gynnwys adborth a gafwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad ar lafar a darparu adborth i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

## 40. TRAFOD GYDA'R CYNGOR AR FATERION MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar ganlyniad penderfyniad y Pwyllgor ar 2 Medi 2019 i'r Cyngor fabwysiadu'n wirfoddol nifer o argymhellion arfer gorau a wnaed gan y 'Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus'. Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r argymhelliad penodol i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau gwrdd yn rheolaidd ag uwch ffigurau yn y Cyngor i roi cyfle i drafod yn anffurfiol ar raglen waith y Pwyllgor ac i godi unrhyw bryderon ynghylch gweithdrefnau, protocolau neu ymddygiad Aelodau.

Yn dilyn cytundeb gan Arweinydd a Chadeirydd y Cyngor, trefnwyd cyfarfod rhagarweiniol gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 18 Tachwedd, gyda'r nod o gynnal cyfarfodydd dilynol bob chwe mis.

Nodwyd awgrym y Cynghorydd Johnson y dylid cynnal yr ail gyfarfod cyn dyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020.

Pan ofynnodd y Cynghorydd Heesom iddo am gynnwys Arweinwyr Grŵp, awgrymodd y Swyddog Monitro y dylai'r cyfarfod cyntaf gynnwys ystyriaeth ar aelodaeth y grŵp ac amlder cyfarfodydd. Croesawyd hyn gan y Cynghorydd Heesom. Eglurodd y Swyddog Monitro hefyd na fyddai angen i'r rheini ar yr aelodaeth ddatgan cysylltiadau personol gan fod hwn yn grŵp mewnol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Croesawu cytundeb yr Arweinydd a Chadeirydd y Cyngor i gyfarfodydd cyswllt bob chwe mis; a

(b) Bod y materion allweddol a nodir yn yr adroddiad yn ffurfio'r agenda ar gyfer cyfarfodydd o'r fath a'r cyfarfod cyntaf yn ystyried aelodaeth ac amlder cyfarfodydd yn y dyfodol.

**41. LLYFR ACHOS OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – RHIFYN 21 (MIS EBRILL-MEHEFIN) A RHIFYN 22 (MIS GORFFENNAF-MEDI 2019)**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro’r adroddiad i hysbysu’r Pwyllgor am gyhoeddiadau diweddaraf Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ystod y cyfnod dan sylw, ymchwiliodd Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i 17 o gwynion, a chanfuwyd nad oedd gan wyth ohonynt dystiolaeth o dor-rheolau, arweiniodd pump at ganfyddiadau nad oedd angen gweithredu arnynt, arweiniodd tair at atgyfeiriadau i'r Pwyllgorau Safonau perthnasol ac arweiniodd un at atgyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru.

Cyfeiriodd Julia Hughes at ymchwiliad yn ymwneud ag aelod o Gyngor Tref Prestatyn ac eglurodd nad oedd wedi datgan cysylltiad gan nad oedd wedi cymryd rhan yn yr achos hwnnw. Cynigiodd y dylid dosbarthu gwybodaeth am Lyfr Achos Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gynghorau Tref a Chymuned i rannu arferion dysgu, yn enwedig ar ymchwiliadau yn ymwneud â'r broses Datgan Cysylltiad. Cytunwyd ar hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y dylid nodi canfyddiadau’r cwynion hynny yr ymchwiliwyd iddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod mis Ebrill - Mehefin 2019 a mis Gorffennaf - Medi 2019, fel y crynhoir yn rhifyn 21 a 22 o’r Llyfr Achos; a

(b) Bod y Swyddog Monitro yn rhoi dolen i wefan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gynghorau Tref a Chymuned at ddibenion gwybodaeth.

**42. DIWEDDARIAD AR Y SEDD WAG AR GYFER AELOD ANNIBYNNOL**

Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad ar lafar ar y broses recriwtio ar gyfer y swydd wag i aelodau annibynnol ar y Pwyllgor. Esboniodd y gofynion angenrheidiol gan gynnwys yr angen i'r panel cyfweld gynnwys dim mwy na phump o bobl gan gynnwys yr aelod lleyg.

Siaradodd y Cadeirydd o blaid cael llai o bobl ar y panel.

Cytunwyd y byddai'r Swyddog Monitro yn bwrw ymlaen â hysbyseb y swydd wag gyda'r bwriad o gynnal y cyfweliad cyn y Nadolig. Byddai'n dosbarthu manylion dyddiad y cyfweliad yn agosach at yr amser i sefydlu argaeledd y panel, gan anelu at gael tri aelod.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Swyddog Monitro yn trefnu i hysbysebu'r swydd wag ac yn dosbarthu manylion am ddyddiad y cyfweliad.

## 43. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Ystyriwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol, gan nodi y byddai adborth o'r cyfarfod anffurfiol sydd ar ddod gyda'r Arweinydd a Chadeirydd y Cyngor yn cael ei drefnu.

Awgrymodd y Cynghorydd Woolley eitem yn y Flwyddyn Newydd ar unrhyw faterion Cod Ymddygiad a allai fod wedi codi o gyfnod yr etholiad.

Cytunwyd y byddai cyfarfod mis Ionawr yn cael ei ganslo oni ddeuai unrhyw geisiadau am oddefeb i law.

Cyflwynodd y Cadeirydd ei ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod mis Chwefror.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 44. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Doedd dim un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 6.50pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**